

Hysbysiad o apêl yn erbyn penderfyniad Cyllid a Thollau EM

Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon i apelio yn erbyn penderfyniad sydd wedi'i wneud gan Cyllid a Thollau EM am Gredyd Treth, Budd-dal Plant, Lwfans Gwarcheidwad, Gofal Plant di-dreth, neu ofal plant am ddim am 30 awr. Os hoffech gael y ffurflen hon mewn fformat arall, darllenwch y nodyn ar dudalen 6 y ffurflen hon.

Mae canllawiau pellach i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon ar gael yn llyfryn SSCS5A "Sut i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Gyllid a Thollau EM". Gallwch lwytho'r llyfryn i lawr neu gael gwybod ble mae modd cael copi caled drwy fynd i'r wefan Cyfiawnder yn www.justice.gov.uk

Ynglŷn â'r ffurflen hon

Mae'r ffurflen hon yn eich helpu i ddarparu'r holl wybodaeth y mae'r tribiwnlys ei hangen i gofrestru'ch apêl. Bydd hefyd yn sicrhau bod eich apêl yn cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol, sy'n ofynnol yn gyfreithiol.

Sut mae llenwi'r ffurflen hon

Defnyddiwch inc du i lenwi'r ffurflen hon a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU oni bai fod y ffurflen yn nodi'n wahanol.

Rhaid i chi lenwi Adranau 1, 2, 5, 6 ac 8.

Os ydych chi eisiau **mynychu gwrandawriad**, rhaid i chi **lenwi Adran 7** hefyd

Os ydych chi'n apelio **ar ran rhywun y mae llys neu Cyllid a Thollau EM wedi'ch penodi chi i weithredu ar ei ran**, rhaid i chi **lenwi Adran 3** hefyd

Os oes gennych **gynrychiolydd**, rhaid i chi lenwi **Adran 4** hefyd

Beth i'w gynnwys gyda'r ffurflen hon

Rhaid i chi gynnwys copi o'r **hysbysiad gorfodi i ailystyried** sy'n dangos y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn. Nid oes rhaid i chi gynnwys tystiolaeth/gwybodaeth yr ydych eisoes wedi'u hanfon at Cyllid a Thollau EM gan y byddant yn eu hanfon atom fel rhan o'u hymateb.

Adran 1 YNGLŶN Â'R PENDERFYNIAD YR YDYCH YN APELIO YN EI ERBYN

Mae'r adran hon yn ymwneud â'ch **hysbysiad gorfodi i ailystyried**. Y llythyr a anfonwyd atoch gan Cyllid a Thollau EM yn esbonio eu bod wedi edrych ar eich penderfyniad eto yw hwn.

Ydy eich **hysbysiad gorfodi i ailystyried** yn dweud wrthy'ch fod gennych yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad?

Ydy

Nac ydy

Os na, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen yr adran 'A gaf i Apelio?' cyn parhau i lenwi'r ffurflen hon.

Ticiwch y blwch hwn i gadarnhau eich bod wedi atodi copi o'r **hysbysiad gorfodi i ailystyried** gyda'ch ffurflen apelio

Ysgrifennwch yma **enw'r dyfarniad neu fudd-dal** rydych yn apelio yn ei gylch. Bydd enw'r budd-dal yn cael ei ddangos ar y llythyr sy'n rhoi'r penderfyniad i chi.

Cofiwch gynnwys copi o'ch hysbysiad gorfodi i ailystyried gyda'ch ffurflen apêl. Os na fyddwch yn gwneud hynny, ni allwn gofrestru eich apêl nes byddwn wedi ei dderbyn.

Nawr ewch i Adran 2 

Adran 2 – AMDANOCH CHI

Llenwch yr adran hon os yw'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn yn ymwneud â'ch budd-dal neu eich dyfarniad **chi** neu fudd-dal neu ddyfarniad rhywun y mae Cyllid a Thollau EM neu lys wedi'ch penodi **chi** i ofalu amdano. Os cewch eich penodi gan Cyllid a Thollau EM i gymryd cyfrifoldeb dros ddyfarniad neu fudd-dal rhywun arall, dylech gofnodi manylion yr **unigolyn hwnnw** yn Adran 3 hefyd.

Mr Mrs Miss Ms Arall (nodwch)

Enw(au) cyntaf

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Rhif ffôn symudol

Cyfenw

Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

Rhif Yswiriant Gwladol*

llythrennau	rhifau	llythyren
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

* Os ydych chi'n apelio ar ran plentyn neu unigolyn arall ac wedi darparu ei rif Yswiriant Glwadol yn Adran 3, does dim angen i chi ddarparu'ch Rhif Yswiriant Glwadol chi.


Nawr ewch i Adran 

Adran 3 YNGLŶN Â PHLENTYN NEU UNIGOLYN ARALL RYDYCH YN APELIO AR EI RAN

Mae'r adran hon ar gyfer pobl sy'n apelio ar ran rhywun y mae ganddo / ganddi gyfrifoldeb cyfreithiol drosto. Gall fod yn rhiant sy'n gweithredu ar ran plentyn, neu unigolyn a benodwyd gan Cyllid a Thollau EM neu gan lys i ofalu am faterion oedolyn arall.

Ydych chi'n apelio ar ran plentyn neu unigolyn arall yr ydych wedi eich penodi i ofalu am ei faterion?

Ydw Os Ydych chi, rhowch fanylion am yr unigolyn isod

Nac ydw Os Nac ydych chi ewch i Adran 4 

Mr Mrs Miss Ms Arall (nodwch)

Enw(au) cyntaf

Cyfeiriad (os yw cyfeiriad yr unigolyn yn wahanol i'ch un chi)

Cod Post

Cyfenw

Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

Rhif Yswiriant Gwladol*

llythrennau	rhifau	llythyren
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>


Nawr ewch i Adran 4 

Adran 4 YNGLŶN Â'CH CYNRYCHIOLYDD (os oes gennych un)

Mae'r adran hon yn sôn am eich cynrychiolydd (os oes gennych un).

Yr hyn a olygwn wrth gynrychiolydd yw rhywun sy'n gweithredu ar eich rhan yn ffurfiol. Gall fod yn sefydliad fel Canolfan Cyngor ar Bopeth neu'n wasanaeth hawliau lles, neu gall fod yn ffrind neu'n gynghorydd sy'n gwybod am faterion Credyd Treth, Budd-dal Plant, Lwfans Gwarcheidwad, Gofal Plant di-dreth, neu ofal plant am ddim am 30 awr. Os byddwch yn enwi cynrychiolydd yma ac yn llofnodi Adran 8, bydd hyn yn rhoi'r awdurdod i ni ddelio â'ch cynrychiolydd ynghylch eich apêl. Os nad ydych yn siŵr am hyn, darllenwch yr adran 'Ynglyn â'ch cynrychiolydd' yn y llyfryn SSCS5A.

Oes gennych chi gynrychiolydd?

- Oes Os oes, rhowch fanylion am yr unigolyn isod
 Nac oes Os Nac oes ewch i Adran 5 

Enw'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n cynrychioli

Rhif ffôn

Cyfeiriad

Cod Post

Os sefydliad sy'n eich cynrychioli, a chithau'n gwybod enw'r unigolyn sy'n gweithredu ar eich rhan, rhowch ei enw isod

- Mr Mrs Miss Ms Arall (nodwch)

Enw cyntaf

Cyfenw

Nawr ewch i Adran 5 

Adran 5 YNGLŶN Â'CH APÊL


Rhesymau dros apelio

Yn yr adran hon, mae angen inni wybod pam yr ydych yn apelio. Ysgrifennwch, yn eich geiriau eich hun, y rhesymau pam yr ydych yn anghytuno â phenderfyniad Cyllid a Thollau EM. Nid oes raid i chi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU yn yr adran hon os yw eich llawysgrifen yn eglur. Os na fyddwch yn llenwi'r adran hon, bydd yn arafu'r broses o ddelio â'ch apêl ac mae'n bosibl y dychwelir y ffurflen apêl atoch. I gael rhagor o wybodaeth am seiliau dros apelio, darllenwch yr adran 'ynglŷn â'ch apêl yn y llyfryn SSCS5A.

(defnyddiwch ddalen ar wahân i barhau os oes angen)

A ydych wedi apelio mewn pryd?

Yn ôl y gyfraith, rhaid i'ch apêl **gyrraedd y tribiwnlys** o fewn **un mis calendr** i'r dyddiad yr anfonwyd yr **hysbysiad gorfodi i ailystyried** atoch. Os bydd eich apêl yn cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn, bydd yn apêl hwyr, a bydd y tribiwnlys angen gwybod pam ei fod yn hwyr.

Ydy'ch apêl yn hwyr? Ydy Ydy Os Ydy, rhaid i chi roi rhesymau isod pam mae'ch apêl yn hwyr
 Na ydy Os Nac ydy, ewch i Adran 6 

Os ydy'ch apêl yn hwyr, rhaid i chi esbonio pam. Bydd y tribiwnlys yn ystyried eich rhesymau, a gall ymestyn y terfyn amser ar eich cyfer. Os na fyddwch yn rhoi rhesymau pam mae'ch apêl yn hwyr, mae'n bosibl y dychwelir eich ffurflen apelio atoch. Dywedwch isod pam mae'ch apêl yn hwyr. Does dim angen i chi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU.

Mae gan Gyllid a Thollau EM yr hawl i wrthwynebu apêl hwyr. Bydd y tribiwnlys yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw'r canlyniad.

Cyfrinachedd

Fel arfer dim ond dau barti sydd yn yr apêl, chi a Cyllid a Thollau EM. Mae'n amlwg y bydd Cyllid a Thollau EM yn gwybod amdanoch chi.

Ond weithiau, efallai y bydd unigolyn arall yn gysylltiedig â'ch anghydfod â Cyllid a Thollau EM.

Er enghraifft, efallai fod y ddau riant (neu oedolyn arall) yn hawlio Budd-dal Plant. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yr unigolyn hwnnw yn ymuno fel parti yn yr apêl.


Gan fod gan y parti arall hwnnw hawl i weld pob darn o dystiolaeth a gyflwynir fel rhan o'r apêl, fe fydd adegau pan fydd rhai mathau o dystiolaeth yn dod i law - biliau neu gyfriflen banc er enghraifft – a fydd yn cynnwys cyfeiriad eich cartref. Bydd gan y parti arall yn yr apêl hawl i weld y dystiolaeth hon. Ond, os nad ydych am i'r parti arall wybod beth yw eich cyfeiriad presennol (a'r parti hwnnw ddim yn ei wybod eisoes), gallwch ofyn bod eich cyfeiriad yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Os ydych yn gwneud hyn, bydd GLITEM yn archwilio unrhyw ddarn o dystiolaeth y bydd yn ei dderbyn sy'n ymwneud â chi ac yn tynnu manylion eich cyfeiriad ohono cyn ei rannu.


Rwyf am i'm cyfeiriad cartref gael ei gadw'n
gyfrinachol Ie

Na

Adran 6 YNGLŶN Â'CH DEWIS O WRANDAWIAD

Mae pob apêl yn cael ei hystyried gan banel annibynnol. Byddwn yn trefnu i'r panel wrando ar eich apêl chi a bydd disgwyl i chi neu eich cynrychiolydd ddod i'r gwrandawriad. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno dod i'r gwrandawriad, cewch ofyn am gael penderfyniad ar yr apêl ar sail y papurau. Rhowch wybod i ni isod sut hoffech i ni ddelio â'ch apêl.

Rwyf eisiau mynychu gwrandawriad fy apêl Os ydych chi wedi ticio'r blwch hwn, ewch i Adran 7 

Rwyf am i benderfyniad gael ei wneud ar fy
apêl ar sail y papurau Os ydych chi wedi ticio'r blwch hwn, ewch i Adran 8 

Os byddwch yn newid eich meddwl am hyn, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosib, oherwydd efallai y bydd yn rhy hwyr newid hyn unwaith y bydd y gwrandawriad wedi'i drefnu. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r adran "Ynglyn â'ch dewis o wrandawriad" yn y llyfryn canllawiau SSCS5A.

Nawr ewch i Adran 7 

Adran 7 Y GWRANDAWIAD – EICH ANGHENION A'CH GOFYNION

Dim ond os ydych wedi dweud wrthym yn Adran 6 eich bod yn dymuno dod i'r gwrandawriad y mae'n rhaid i chi ateb y cwestiynau hyn. Os ydych wedi gofyn i'ch apêl gael ei benderfynu arno ar sail y papurau, ewch ymlaen i Adran 8.

Yn yr adran hon, rhaid i ni ofyn nifer o gwestiynau i'n helpu ni i drefnu gwrandawriad addas i chi. Byddwn yn ceisio ystyried eich anghenion a phryd yr ydych ar gael, ond efallai na fydd yn bosibl gwneud hyn bob amser. Atebwch gwestiynau 1 i 4 er mwyn i ni gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnom. Os na fyddwch yn ateb rhai o'r cwestiynau, bydd rhaid i ni gysylltu â chi eto, a gall hyn achosi oedi gyda'ch apêl. Nid oes raid i chi ateb y cwestiynau hyn mewn PRIFLYTHRENNAU.

Cwestiwn 1 – Pryd y byddwch ar gael

Cynhelir gwrandawriadau tribiwnlys rhwng 10am a 5pm dydd Llun i ddydd Gwener, ac ar ddyddiau Sadwrn hefyd yn ein canolfannau mwy hefyd. Er mwyn caniatáu i chi fod yn bresennol yn eich gwrandawriad, byddwn yn ceisio trefnu amser a dyddiad pan fyddwch ar gael. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni yma os oes unrhyw ddyddiau o'r wythnos neu adegau o'r dydd pan na allwch ddod i dribiwnlys neu unrhyw ddyddiadau pryd na fyddwch ar gael, er enghraifft oherwydd eich bod wedi trefnu gwyliau neu bod gennych apwyntiadau ysbyty. Dylech ystyried pryd y byddwch ar gael yn ystod y chwe mis nesaf.

Ydych chi ar gael i ddod i wrandawriad ar unrhyw adeg?

Ydw

Nac ydw

Os nad ydych, rhowch wybod i ni pryd allwch chi ddim bod yn bresennol yn y blwch isod

Cwestiwn 2 – Eich anghenion

Rhowch wybod i ni yma am unrhyw anghenion arbennig sydd gennych y dylem eu hystyried wrth drefnu'ch gwrandawriad. Gall hyn gynnwys pethau fel dolenni clyw neu fynediad i bobl anabl.

Oes gennych chi unrhyw anghenion arbennig?

Oes

Os oes, rhowch fanylion amdanynt yn y blwch isod

Nac oes

Cwestiwn 3 – Eich arwyddwr neu gyfeithydd a'ch gofynion iaith

Oes angen cyfeithydd neu arwyddwr arnoch i'ch helpu yn y gwrandawriad?

Oes

Os oes, rhowch wybod ym mha iaith a thafodiaith isod

Nac oes

Iaith neu fath o ddehonglydd iaith arwyddion

Tafodiaith

Byddwn yn trefnu i gyfeithydd proffesiynol fod yn bresennol yn y gwrandawriad. Ewch i'r adran 'Llenwi'r ffurflen SSCS5'

Cwestiwn 4 – Eich hysbysu ynghylch gwrandawriad

Fel arfer byddwn yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd am ddyddiad y gwrandawriad. Os byddwch yn cytuno i hynny, gallwn hefyd roi llai na 14 diwrnod o rybudd. Mae'n bosibl y bydd modd trefnu'r gwrandawriad yn gynt, er enghraifft, os bydd gwrandawriad arall yn cael ei ganslo ac y bydd modd cynnal eich gwrandawriad chi yn ei le ar fyr rybudd.

Ydych chi'n cytuno i gael llai na 14 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrandawriad?

Ydw

Nac ydw

Nawr ewch i Adran 8 

Adran 8 EICH LLOFNOD

Rhaid i chi lofnodi eich ffurflen apêl er mwyn iddi fod yn ddilys. Os ydych chi wedi enwi cynrychiolydd yn Adran 4, bydd eich llofnod hefyd yn rhoi awdurdod i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ddelio â'ch cynrychiolydd pan fydd yn cysylltu â ni ar eich rhan.

Llofnod

Dyddiad (DD/MM/BBBB)

/ /

Enw

Os ydych chi'n gynrychiolydd sy'n llofnodi'r ffurflen hon ar ran yr unigolyn sy'n apelio, rhaid i chi anfon ei lofnod sy'n rhoi'r awdurdod i chi weithredu ar ei ran gyda'r ffurflen hon.

BETH I'W WNEUD NAWR

Mae angen i chi anfon eich ffurflen apelio a **chopi o'r hysbysiad gorfodi i ailystyried** at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr,
anfonwch eich apêl i:

HMCTS SSCS Appeals Centre
Blwch Post 1203
BRADFORD
BD1 9WP

Os ydych yn byw yn yr Alban anfonwch eich apêl i:

HMCTS SSCS Appeals Centre
Blwch Post 27080
GLASGOW
G2 9HQ

Byddwn yn anfon llythyr atoch i ddweud wrthyf ein bod wedi cael eich apêl ac esbonio beth fydd yn digwydd nesaf.

RHESTR WIRIO

Mae'n bosibl y bydd y rhestr wirio hon yn ddefnyddiol i'ch helpu chi i wneud yn siŵr eich bod wedi cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom.

- Rwyf wedi cynnwys copi o'r **hysbysiad gorfodi i ailystyried (Adran 1)**
- Rwyf wedi nodi fy sail dros apelio **(Adran 5)**
- Rwyf wedi dewis pa fath o wrandawriad yr wyf am ei gael **(Adran 6)**
- Rwyf i, neu fy nghynrychiolydd, wedi llofnodi fy ffurflen apêl **(Adran 8)**

Fformatau Eraill

Os oes arnoch angen y ffurflen hon mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras, ffoniwch 0300 123 1142 (llinell gymorth Saesneg) 0300 303 5170 (llinell gymorth Gymraeg) os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr, a 0300 790 6234 os ydych yn byw yn Yr Alban.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn prosesu gwybodaeth personol amdanoch chi yng nghyd-destun achosion tribiwnlys.

I gael manylion am y safonau rydym yn eu dilyn wrth brosesu'ch data, ewch i: <https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter>

I gael copi papur o'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ffoniwch 0300 123 1024 Ffôn testun 18001 0300 123 1024. Os ydych yn ffonio o'r Alban, ffoniwch 0300 790 6234 Ffôn Testun 18001 0300 790 6234.